



dros adar  
dros bobl  
am byth

### Yr RSPB

Pencadlys y DU  
The Lodge, Sandy, Swydd Bedford SG19 2DL Ffôn: 01767 680551

### Cymru

Pencadlys Cymru  
Tŷ Sutherland, Pont y Castell, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen,  
Caerdydd CF11 9AB Ffôn: 029 2035 3000

Swyddfa Gogledd Cymru  
Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd LL57 2DW  
Ffôn: 01248 363800

### Lloegr

Swyddfa Ranbarthol Canolbarth Lloegr  
46 The Green, South Bar, Banbury, Swydd Rydychen OX16 9AB  
Ffôn: 01295 253330

Swyddfa Ranbarthol Dwyrain Lloegr  
Stalham House, 65 Thorpe Road, Norwich NR1 1UD  
Ffôn: 01603 661662

Swyddfa Ardal Llundain  
Second Floor, 65 Petty France, Llundain SW1H 9EU  
Ffôn: 020 7808 1240

Rhanbarth Gogledd Lloegr  
1 Sirius House, Amethyst Road, Newcastle Business Park,  
Newcastle upon Tyne NE4 7YL Ffôn: 0191 256 8200

Westleigh Mews, Wakefield Road, Denby Dale, Huddersfield  
HD8 8QD Ffôn: 01484 861148

[www.rspb.org.uk](http://www.rspb.org.uk)



Elusen sy'n gweithio i sicrhau amgylchedd iach i adar a bywyd gwyllt,  
gan helpu i greu gwell byd i bawb, yw'r RSPB. Rydym yn rhan o BirdLife  
International, y bartneriaeth fyd-eang o sefydliadau gwarchod adar.

Clawr blaen: Eco-gartrefi yn Ashley Vale, Bryste, gan Jeff Morgan/Alamy  
Elusen gofrestredig rhif 207076 Cymru a Lloegr, SCO37654 yr Alban 270-0786-06-07

## Asesiad Amgylcheddol Strategol – dysgu o ymarfer



# Cyflwyniad



Andy Hay (rspb-images.com)

## AAS a llunio cynlluniau

Dull a ddefnyddir yn rhyngwladol i wella perfformiad amgylcheddol cynlluniau<sup>1</sup> fel y gallant gyfrannu'n well at ddatblygu cynaliadwy yw asesiad amgylcheddol strategol (AAS).

Roedd cyflwyno'r Gyfarwydddeb AAS<sup>2</sup> i gyfraith y DU yn 2004 yn gofyn am newid mawr yn y dull o integreiddio materion amgylcheddol i'r gwaith o lunio cynlluniau cyhoeddus. Mae AAS yn rhagweld ac yn gwerthuso effeithiau amgylcheddol cynlluniau dewisiadau eraill wrth iddynt gael eu paratoi. Mae'n nodi gwelliannau i gynlluniau trwy gynnwys arbenigwyr amgylcheddol a'r cyhoedd. Pan gaiff AAS ei gynnal yn effeithiol a'i ystyried yn briodol gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, dylai'r canlyniad fod yn gynllun mwy cadarn sy'n ymateb i heriau amgylcheddol ac yn gwella ansawdd bywyd pobl.

Mae'r rheini sy'n cael eu heffeithio gan y Gyfarwydddeb wedi gorfod dysgu'n

gyflym i geisio deall goblygiadau'r cyfreithiau newydd ar gyfer eu gweithgareddau. Mewn llawer o achosion, mae AAS effeithiol yn gofyn am newidiadau i'r ffordd mae awdurdodau'n mynd ati i ddatblygu cynlluniau. Mewn achosion eraill, mae rhai o'r camau sy'n ofynnol er mwyn bodloni'r Gyfarwydddeb AAS eisoes wedi'u cymryd ar lefel fwy anffurfiol, ond mae'r Gyfarwydddeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhain gael eu ffurfioli ac i ni ymgynghori â rhanddeiliaid ar y wybodaeth amgylcheddol.

Mae'r newid diwylliannol oedd ei angen er mwyn manteisio'n llawn ar yn dechrau dod i'r amlwg. Mae'r RSPB yn awyddus i weld hyn yn digwydd yn gyflymach. Yn y ddwy flynedd gyntaf ar ôl i'r Gyfarwydddeb ddod i rym, cynhaliwyd rhai AASau dan gyfyngiadau amser tynn a dim ond asesiad arwynebol o'r effeithiau posibl a gynhaliwyd gan eraill. Dechreuodd llawer yn rhy hwyr i ddylanwadu ar ddatblygiad y cynllun.

<sup>1</sup> Yn y llyfryn hwn, mae'r term 'cynllun' yn golygu unrhyw gynllun, rhaglen neu strategaeth o fewn cwmpas deddfwriaeth AAS yr UE, neu ddeddfwriaeth genedlaethol os yw'n wahanol.  
<sup>2</sup> Cyfarwydddeb 2001/42/EC ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd. Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd (2001).



Andy Hay (rspb-images.com)



Nefid wair gan David Kraer (rspb-images.com)

Yn raddol, mae'r defnydd o AAS yn dod yn fwy rhagweithiol. Mae rhai ymarferwyr yn dechrau'n gynnar, gan ddefnyddio methodolegau cadarn yn seiliedig ar ddata llinell sylfaen mwy cynhwysfawr i nodi a gwerthuso effeithiau amgylcheddol. Maen nhw'n gweithio'n agos gyda llunwyr cynlluniau i rannu gwybodaeth i lywio'r cynllun. Mae llawer o waith ar ôl i'w wneud cyn i'r arfer hwn ennill ei blwyf. Rydym yn gobeithio y bydd yr astudiaethau achos ysbrydoledig a gyflwynir yma'n dangos sut y gall AAS fod yn broses fuddiol a chost-effeithiol, sydd eisoes yn helpu pobl i gynhyrchu cynlluniau mwy amgylcheddol gynaliadwy.

### **Pam mae'r RSPB yn hyrwyddo AAS?**

Mae'r RSPB yn cefnogi AAS am ei fod yn gyfle da i fynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol cynlluniau a ddatblygir ar gyfer amrywiaeth eang o sectorau ac ar lefelau sy'n amrywio o safleoedd datblygu unigol i rai sy'n cwmpasu'r DU i gyd. Gall effeithiau cymhleth

cronnus fel newid yn yr hinsawdd a cholli cynefinoedd gael eu trin yn fwy effeithiol mewn cynlluniau strategol nag mewn prosiectau unigol. Er enghraifft, gall AAS gasglu data llinell sylfaen ar ollyngiadau carbon a darparu mecanwaith i helpu i sicrhau gostyngiadau cynyddol mewn gollyngiadau carbon trwy roi cynlluniau ar waith, yn unol ag ymrwymadau Protocol Kyoto.

O ran bioamrywiaeth, gall AAS:

- **helpu i sicrhau bod amcanion bioamrywiaeth yn rhan o gynlluniau. Er enghraifft, gellir ymchwilio i gyfleoedd i wella cynefinoedd sy'n cyfrannu at dargedau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth**
- **nodi a gwerthuso dewisiadau amgen a all fod yn well i fioamrywiaeth na chynigion cyfredol**
- **cyflwyno argymhellion i osgoi a lleihau effeithiau a nodwyd ac i ddiogelu bioamrywiaeth.**

Mae ymgynghoriad cyhoeddus effeithiol yn rhan hanfodol o AAS. Mae'n rhaid i'r cyhoedd, gan gynnwys

sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol fel yr RSPB, gael cyfle i ddweud eu dweud am y cynllun drafft a'r adroddiad AAS tua diwedd y broses. Mae AAS hefyd yn rhoi cyfle i'r cyhoedd helpu i ddylanwadu ar y gwaith o lunio cynlluniau'n gynharach. Trwy gynnwys pobl yn gynnar yn y broses AAS, gall ymarferwyr elwa ar wybodaeth pobl am eu hardal, y problemau amgylcheddol sy'n effeithio arnynt a'u syniadau ynglŷn â sut i ddatrys y problemau hyn. Gall cyfnod cwmpasu sy'n integreiddio pryderon mawr y cyhoedd gyda materion technegol allweddol a nodir helpu i sicrhau AAS effeithlon gyda ffocws pendant, er ei fod hefyd yn nodi materion llai arwyddocaol ar haenau is y'r asesiad.

### **Arbenigedd yr RSPB ym maes AAS**

Mae gan yr RSPB enw da yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am asesiadau amgylcheddol a ddatblygwyd trwy ein gwaith parhaus yn y maes hwn dros yr 20 mlynedd diwethaf. Trwy ein harbenigedd,

rydym wedi llwyddo i ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu deddfwriaeth AAS ac asesiad o'r effaith amgylcheddol (AEA) ar lefel y DU a'r UE. Mae canllawiau a gynhyrchwyd i annog asesiadau effaith o ansawdd uchel wedi cynnwys *A step by step guide to environmental appraisal* (1996, gyda Chyngor Sir Swydd Bedford) a *Biodiversity Impact* (2000, adroddiad a thaflen) ar drin bioamrywiaeth mewn AEA. Yn ddiweddar, ni oedd un o'r sefydliadau a gynhyrchodd *Strategic Environmental Assessment and Biodiversity: Guidance for Practitioners* (2004, a ariannwyd ar y cyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, English Nature ac Asiantaeth yr Amgylchedd).

Yn aml, gofynnir i ni gyngori cyrff ynglŷn â'u harferion amgylcheddol ac rydym wedi trefnu sawl digwyddiad AAS mawr, gan gynnwys seminar ar roi'r Gyfarwydddeb AAS ar waith yn y DU yn 2002. Fe'n gwahoddir yn rheolaidd i roi cyflwyniadau ac i ddarparu hyfforddiant mewn digwyddiadau yn y DU a thu hwnt.

### **Ymgynghori â'r RSPB**

Mae'r RSPB yn croesawu'r cyfle i gyfrannu'n gynnar at brosesau AAS. Gallwn gyngori ar faterion bioamrywiaeth allweddol ac arferion da cyffredinol. Er bod ein hadnoddau'n gyfyngedig, cysylltwch â ni er mwyn trafod a allwn ni eich helpu.

Os ydych chi'n cynnal AAS sy'n berthnasol i ardal neu ranbarth penodol, cysylltwch â swyddfa ranbarthol berthnasol yr RSPB (cyfeiriadau ar y dudalen gefn) a gofynnwch am gael siarad â Swyddog Cadwraeth. Ar y cyfan, staff polisi sy'n gweithio ym Mhencadlys y DU sy'n ymdrin ag AASau ar gyfer cynlluniau sy'n cwmpasu'r DU gyfan neu Loegr yn unig. Staff polisi sy'n gweithio yn y pencadlysoedd cenedlaethol perthnasol sy'n mynd i'r afael ag AASau ar gyfer cynlluniau yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

**Am ragor o wybodaeth am AAS a'r RSPB, cysylltwch â Lisa Palframan ym Mhencadlys y DU yr RSPB neu anfonwch e-bost at [lisa.palframan@rspb.org.uk](mailto:lisa.palframan@rspb.org.uk)**



# Yr astudiaethau achos



Andy Hay (rspb-images.com)

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos agwedd ar AAS neu arfarniad cynaliadwyedd (SA)<sup>2</sup> sydd wedi'i gynnal i safon uchel yn ein barn ni. Cyn belled â bod yr agweddau hyn yn rhan o broses AAS o ansawdd uchel a bod rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n barod i dderbyn casgliadau'r AAS, dylai hyn helpu i sicrhau cynllun amgylcheddol gadarn. Yn aml, mae'r astudiaethau hyn yn dangos dull arloesol neu anghyffredin o fynd i'r afael ag arferion AAS.

Yn aml, mae'r ymarferwyr AAS sy'n cyfrannu at yr astudiaethau achos hyn yn ceisio gweithio'n agos gyda'r rhai sy'n llunio cynlluniau i ddod o hyd i syniadau gwell na'r cynigion cyfredol ac ymchwilio i gyfleoedd i osgoi a lleihau unrhyw effeithiau amgylcheddol negyddol a allai godi. Mae cyfathrebu casgliadau asesiadau'n glir yn hanfodol i'w llwyddiant er mwyn sicrhau bod argymhellion i wella cynaliadwyedd y cynllun yn cael eu mabwysiadu.

<sup>2</sup> Arfarniad o faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yw SA. Mae'n ofynnol ar gyfer Strategaethau Gofodol Rhanbarthol a Dogfennau Cynlluniau Datblygu a Dogfennau Cynllunio Atodol newydd neu ddiwygiedig a gynhyrchir yn Lloegr. Anogir pobl i fodloni gofynion y Gyfarwydddeb AAS trwy gynnal proses AAS/SA integredig a chynhyrchu adroddiad ar y cyd bellach. Mae gwybodaeth bellach ar gael gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weiniogol yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, yn Nofynnau Arfarniad o Gynaliadwyedd Strategaethau Gofodol Rhanbarthol a Datblygu Lleol 2005 ac yn [www.communities.gov.uk](http://www.communities.gov.uk)

Roedd llawer o'r astudiaethau achos yn cynnwys partneriaeth rhwng awdurdod ac ymgynghoriaeth. Wrth i awdurdodau ddatblygu eu harbenigedd ym maes AAS, mae'n debygol y bydd mwy ohonynt yn dechrau arwain eu gwaith eu hunain a gall llawer ddod yn hunangynhaliol. Bydd ymgynghoriaethau'n parhau i gynnig cymorth, cyngor a hyfforddiant uniongyrchol i sefydliadau â llai o brofiad.

Ar hyn o bryd, prin iawn yw'r prosesau AAS sy'n rhagorol ym mhob agwedd ar ansawdd, weithiau am resymau sydd y tu hwnt i reolaeth yr ymarferydd AAS. O ystyried bod AAS yn ofyniad newydd ar gyfer llawer o'r cynlluniau a bob pobl yn dysgu o brofiad, mae rhai astudiaethau achos yn adlewyrchu'r sefyllfa honno. Nid yw cynnwys astudiaeth achos yn awgrymu bod yr RSPB yn cefnogi pob agwedd ar yr AAS dan sylw.



Andy Hay (rspb-images.com)

# Astudiaethau llinell sylfaen cynhwysfawr

## Defnyddio Systemau Gwybodaeth Daeryddol (GIS) mewn AAS



RBKC

### Bwrdeistref Frenhinol Kensington a Chelsea ac Ymgynghoriaeth Scott Wilson


I baratoi ar gyfer yr AAS/SA o Fframwaith Datblygu Lleol Bwrdeistref Frenhinol Kensington a Chelsea, sylweddolodd Scott Wilson a'r cleient ei bod hi'n hanfodol cael casgliad gofodol cynhwysfawr o ddata llinell sylfaen. Byddai hyn yn ychwanegu gwerth at y data cefndir yn yr adroddiad cwmpasu ac ar gyfer yr asesiad ei hun. Datblygwyd ail gyfrol yr adroddiad cwmpasu, gan gyflwyno cyfres o fapiau a atgyfnerthodd wybodaeth llinell sylfaen a gasglwyd yng nghyfnod cynharaf yr AAS/SA.

Er bod yna ddigon o wybodaeth amgylcheddol ar wefanau fel Nature on the Map ([www.natureonthemap.org.uk](http://www.natureonthemap.org.uk)) a Magic ([www.magic.gov.uk](http://www.magic.gov.uk)), sylweddolwyd bod llawer llai o wybodaeth gymdeithasol ac economaidd ar gael. Defnyddiodd y strategaeth becyn GIS i integreiddio gwybodaeth amgylcheddol gyda gwybodaeth a ddefnyddir mewn astudiaethau eraill. Yna, casglwyd data pellach, gan gynnwys lefelau hygyrchedd trafndiaeth gyhoeddus,

mynegeion amddifadedd, data'r cyfrifiad, modelau llygredd aer, adeiladau rhestredig, safbwyntiau strategol a lleoliadau meddygfeydd teulu ac arosfannau bws. Mae mapiau GIS yn dangos amrywiadau rhwng wardiau a strydoedd hyd yn oed.

Roedd y lefel hon o fanylder yn sicrhau sail tystiolaeth gadarn, yn ogystal â chaniatáu datblygiad dull asesu a fyddai'n darparu ffordd dryloyw a hygyrch o gael mynediad i safleoedd y gellir ei defnyddio eto. Roedd hyn yn sicrhau bod gwybodaeth ddigonol am ddatblygu cynaliadwy a fyddai'n cwmpasu pob agwedd ar SA (economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol) yn cael ei chyflwyno. Datblygwyd rhestr o gysylltiadau a fydd yn helpu gyda gwybodaeth llinell sylfaen yn y dyfodol.

Alex White, Scott Wilson  
[alex.white@scottwilson.com](mailto:alex.white@scottwilson.com)



Enghraifft o fap GIS a ddefnyddiwyd i ddarparu llinell sylfaen fanwl ar gyfer yr AAS/SA hwn

# Ffyrdd effeithiol a newydd o gyfathrebu canlyniadau

## Asesu Trothwy Cynaliadwyedd

11



Andy Hay (rspb-images.com)

### AAS/SA o Fframwaith Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Dartford (Enfusion)

Comisiynwyd Enfusion i gynnal yr AAS/SA o Fframwaith Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Dartford yn ardal y Thames Gateway, sy'n wynebu newidiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cyflym. Roedd lefel y materion cynaliadwyedd yn gofyn am ddull newydd.

Defnyddiodd Enfusion ddull Asesu Trothwy Cynaliadwyedd (STA). Mae'n defnyddio lliwiau gwahanol i ddangos benderfynu effaith dewis neu bolisi ar bob un o amcanion yr SA. Mae polisi coch yn gosod cyfyngiadau llwyr, polisi oren yn gosod cyfyngiadau niferus, polisi melyn yn nodi bod lle i wella/lliniaru ac mae polisi gwyrdd golau yn gadarnhaol. Mae gwyrdd tywyll yn dangos polisi a fyddai'n datrys problem gyfredol gyda chynaliadwyedd. Os bydd effaith yn ansicr neu'n niwtral, bydd yn las. Yna, pennir gradd cynaliadwyedd canolrifol ar gyfer pob polisi yn seiliedig ar fynychder y lliwiau.

Mae'r dull wedi bod yn ddefnyddiol dros ben wrth asesu dewisiadau gan fod yr effaith gyffredinol ar gynaliadwyedd i'w gweld yn syth. Gellir cynhyrchu tablau crynodeb sy'n rhoi syniad gweledol o ba mor dda mae polisi wedi perfformio, heb yr angen i ddarparu canlyniadau rhifol. Mae cyfyngiadau amgylcheddol llwyr yn hawdd i'w hadnabod hefyd.

Mae'r dull wedi'i ddefnyddio ar yr AAS/SA o'r Strategaeth Graidd, Dyraniadau Penodol i Safle a Chynlluniau Gweithredu Ardal, ac mae'n gweithio'n dda ar gyfer pob math o Ddogfennau Datblygu Lleol. Mae'r dull wedi'n helpu ni i annog y Cyngor i ganolbwyntio ar y prif faterion cynaliadwyedd ac effeithiau cronrus sy'n codi o ganlyniad i'w fframwaith datblygu lleol; yn arbennig, sut i gyflawni targedau twf llawn her yn y ffordd fwyaf cynaliadwy ac effeithlon a sut i fod o fudd i gymunedau cyfredol yn wyneb newid cyflym.

**Toney Hallahan, Enfusion**  
[toney.hallahan@enfusion.co.uk](mailto:toney.hallahan@enfusion.co.uk)

**'Yn aml, mae Arfarniadau Cynaliadwyedd yn llawn tablau sy'n defnyddio symbolau annealladwy. Mae Enfusion wedi canolbwyntio ar ddull asesu sy'n hawdd ei ddefnyddio. Mae ei ddull goleuadau traffig yn galluogi pobl i gymharu polisïau a dewisiadau'n hawdd. Mae'n amlygu pa bolisïau y dylid eu diwygio i'w gwneud yn fwy cynaliadwy.'**

**Adrian Gowan, Pennaeth Polisi, Cyngor Bwrdeistref Dartford**

enfusion 

**DARTFORD**  
BOROUGH COUNCIL

Llygoden bengron y dŵr gan David Kjaer (rspb-images.com)





# Defnyddio AAS ac EIA yn effeithiol gyda'i gilydd

## Gwella adfywio trwy Arfarniad Cynaliadwyedd

13



Cyngor Brent

### Arfarniad Cynaliadwyedd (yn cynnwys AAS) o Ddogfen Cynllunio Atodol De Kilburn (Cynllunio Amgylcheddol Bwrdeistref Brent/ Collingwood Llundain)

Mae ardal adfywio De Kilburn yn cwmpasu 48 hectar yn ne ddwyrain Bwrdeistref Brent Llundain. Nod Dogfen Cynllunio Atodol (SPD) De Kilburn yw sicrhau adfywiad ffisegol, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor trwy sefydlu'r egwyddorion a'r paramedrau i arwain datblygiad yn y dyfodol ac i wireddu'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer De Kilburn. Mae'r SPD yn dilyn uwchgynllun a baratowyd gan Gyngor Brent a dogfen *New Deal for Communities* De Kilburn yn 2004.

Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r SPD drafft, cynhaliwyd Arfarniad Cynaliadwyedd (SA) a oedd yn cynnwys ASS a gynhaliwyd rhwng Hydref 2004 ac Ionawr 2005, cyn yr

ymgynghoriad ffurfiol ar yr SPD drafft a'i adroddiad SA. Roedd yr amserlen ar gyfer cynnal yr SA yn dynn iawn, yn rhannol oherwydd cyflwyno'r drefn gynllunio newydd a'r angen i sicrhau mecanwaith ar gyfer darparu'r adfywio.

Gan ei fod yn arfarniad strategol, ni ystyriodd yr SA bob datblygiad yn fanwl ond, yn hytrach, canolbwyntiodd ar arfarnu'r egwyddorion a amlinellir yn yr SPD, fel egwyddorion datblygu a defnydd a chynllun tir. Cynigiodd fesurau lliniaru ac argymhellion ar sut y gellid gwella'r egwyddorion ac ychwanegu amodau at y gofynion cynllunio a rhoi unrhyw ganiatâd cynllunio ar waith. Roedd arfarnu'r egwyddorion yn broses ailadroddus ac ymgorfforwyd yr argymhellion a'r mesurau lliniaru arfaethedig yn y diwygiadau o'r SPD drafft lle'r oedd hynny'n briodol.

Gwnaeth yr SA argymhellion penodol ynglŷn â'r angen am asesiadau manylach a'u cwmpas, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

(EIA), a gynhelir yn y cyfnod cais cynllunio amlinellol dilynol ar gyfer yr uwchgynllun a cheisiadau unigol penodol i safle. Mae hyn yn darparu 'pont' bwysig rhwng yr SA a'r EIA(au) dilynol.

Yn ogystal â'r amserlen dynn, un o gyfyngiadau pwysicaf yr SA oedd yr angen i edrych nôl ac ystyried dewisiadau eraill gan fod yr uwchgynllun wedi'i ddatblygu sawl blwyddyn cyn i ofynion yr AAS/SA gael eu cyflwyno. Roedd hyn yn golygu bod amrywiaeth o ddewisiadau wedi cael eu hystyried, eu hasesu a'u trafod gyda'r gymuned leol a rhanddeiliaid eraill cyn paratoi'r SPD drafft, sydd yna'n ceisio rhoi'r dewis sy'n cael ei ffafrio ar waith fel y'i cyflwynir yn yr uwchgynllun. Felly, dim ond wedyn y gallai'r SA arfarnu'r dewisiadau, yn hytrach nag wrth iddyn nhw gael eu datblygu.

Fodd bynnag, mae De Kilburn yn dangos y potensial ar gyfer cydweithio'n effeithiol rhwng AAS/SA ac EIA, hyd yn oed os yw'r ddau

### 'Arweiniodd yr Arfarniad Cynaliadwyedd cynhwysfawr at newidiadau a gwelliannau clir i'r SPD.'

**Dave Carroll, Pennaeth Polisi a Phrosiectau, Cyngor Brent**

asesiad yn berthnasol i'r un ardal ffisegol. Hefyd, helpodd yr SA i sicrhau mesurau lliniaru a gwella allweddol yn yr SPD.

**Ric Eales, Cynllunio Amgylcheddol Collingwood**  
[r.eales@cep.co.uk](mailto:r.eales@cep.co.uk)





Chris Knights (fspb-images.com)

### Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd yr Humber

Mae'r cyfnod cwmpasu mewn AAS yn gyfle i nodi materion amgylcheddol allweddol er mwyn eu hasesu'n fanwl yn ystod y cyfnodau dilynol. Dylai amcanion AAS adlewyrchu materion technegol a phryderon ehangach. Weithiau, bydd cwmpasu'n arwain at restr hir o amcanion AAS posibl, ac efallai na fydd rhai ohonynt yn berthnasol i'r cynllun. Ar y llaw arall, os cânt eu hanwybyddu, gellir beirniadu'r AAS am beidio â mynd i'r afael â materion pwysig.

Defnyddiodd Asiantaeth yr Amgylchedd ddull newydd o fynd i'r afael â'r mater hwn ar gyfer yr AAS o Strategaeth Atal Llifogydd Aber yr Humber. Gwnaeth yr AAS gyfraniad pwysig at y fframwaith penderfynu cyffredinol, a helpodd i nodi'r ateb mwyaf cynaliadwy.

Gosododd Asiantaeth yr Amgylchedd ddau fath o amcan AAS. Yn gyntaf, casglwyd amcanion 'arfarnu', a gynhyrchwyd trwy ddefnyddio

canlyniadau gwaith asesu cynharach, gwaith ymgynghori â rhanddeiliaid a barn broffesiynol. Hefyd, casglwyd set o amcanion 'dyheadol' a oedd yn adlewyrchu nodau, polisïau ac amcanion yr Asiantaeth a phartion eraill.

Nid oedd yr holl amcanion dyheadol yn arwyddocaol ar y lefel strategol. Fodd bynnag, byddant yn arwain gwaith yr Asiantaeth yn yr Humber ac wrth roi'r strategaeth ar waith pan fydd angen EIA manylach ar gyfer pob un o brosiectau'r cynllun cyfalaf. Cawsant hefyd eu defnyddio fel prawf ychwanegol o berfformiad cyffredinol y strategaeth a'i chyfraniad at weledigaeth yr Asiantaeth.

Bu'r dull hwn o gwymorth i gael asesiad i ganolbwyntio ar y materion mwyaf arwyddocaol, gan gydnabod materion pwysig eraill a dangos sut i fynd i'r afael â'r materion hyn yn fwy priodol ar lefelau asesu eraill.

**Jo Murphy, Asiantaeth yr Amgylchedd**  
**Joanne.Murphy@environment-agency.gov.uk**

### Cymharu'r ddau fath o amcan

#### Arfarnu

**Materion allweddol a nodir gan yr AAS ar lefel strategaeth.**

- Diogelu pobl, eiddo a seilwaith.
- Diogelu a gwella safle Ewropeaidd.
- Gweithgareddau porthladd a mordwyo (geomorffoleg).

#### Dyheadol

**Materion a nodir fel rhai 'anstrategol' er yn.**

- Risgiau archeoleg a llygru anhysbys.
- Manylion rhywogaethau a warchodir.
- Pryderon a dyheadau tirseiddianwyr lleol.




Malcolm Hunt (fspb-images.com)



# Ymgynghori effeithiol

## Defnyddio dulliau amrywiol i gael bam



Tyrbina cerbyr morol Tm Cyf

### AAS o Ynni Adnewyddadwy Morol yr Alban (Gweithrediaeth yr Alban, Faber Maunsell a Metoc)

Comisiynodd Gweithrediaeth yr Alban yr AAS hwn i asesu'r effeithiau amgylcheddol a ddaw yn sgil sicrhau bod 10% o anghenion cynhyrchu ynni cynaliadwy morol erbyn 2020. Bydd hefyd yn helpu i ddatblygu polisi ynni adnewyddadwy ac yn darparu gwybodaeth i helpu datblygwyr gyda phrosiectau unigol.

Mae'r potensial i gynhyrchu ynni yn ardal yr astudiaeth (arfordir gorllewinol yr Alban, Moryd Pentland, Ynysoedd yr Orkney ac Ynysoedd y Shetland) yn sylweddol. Mae technolegau newydd yn cael eu datblygu i droi tonnau a'r llanwyn ynni. Mae rhai dyfeisiau'n arnofio, tra bo eraill yn gorwedd ar wely'r môr neu wedi'u suddo'n llawn neu'n rhannol. Mae effeithiau amgylcheddol unigol a chronnus yn cael eu hasesu. Mae materion amgylcheddol perthnasol, yn amrywio o famaliaid y môr i adar sy'n plymio, pysgodfeydd,

archeoleg a'r dirwedd arfordirol, yn cael eu cwmpasu gan yr AAS.


Sefydlwyd grŵp llywio AAS sy'n cynnwys amrywiaeth o grwpiau â buddiant, gan gynnwys yr RSPB. Mae'r grŵp wedi darparu cyngor gwerthfawr ar bob agwedd ar yr AAS, gan gynnwys ei gwmpas, dulliau asesu a'r angen am astudiaethau ychwanegol, fel y perygl posibl o wrthdrawiad i adar. Mae gweithdai wedi'u cynnal a sefydlwyd gwefan ([www.seaenergyscotland.co.uk](http://www.seaenergyscotland.co.uk)). Bydd yr ymgynghoriad arfaethedig ar gyfer yr adroddiad amgylcheddol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2007, yn ceisio cael amrywiaeth eang o safbwyntiau trwy dargedu sefydliadau amgylcheddol, datblygwyr a'r cyhoedd. Bydd arddangosfa'n teithio trwy ardal yr astudiaeth yn gofyn barn y cymunedau fydd yn cael eu heffeithio fwyaf.

Bydd yr AAS yn helpu i sicrhau bod cynlluniau ar gyfer ynni adnewyddadwy morol yn y dyfodol yn ystyried yr holl wybodaeth amgylcheddol, yn ogystal â barn y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill.

**Iain Bell, Faber Maunsell**  
[iain.bell@fabermaunsell.com](mailto:iain.bell@fabermaunsell.com)

**Y nod yw integreiddio materion amgylcheddol yn y gwaith o greu polisi ynni adnewyddadwy morol. Mae'r AAS yn darparu man cychwyn ar gyfer cynllunio prosiectau ynni adnewyddadwy morol ar gyfer y dyfodol yn yr Alban ac mae cyfraniad y Grŵp Llywio ac ymgynghoriadau ehangach yn rhan allweddol o'r broses hon.**

**Gweithrediaeth yr Alban**



# Gweithio gyda'n gilydd

## Defnyddio AAS i hwyluso gwaith rhyngdisgyblaethol

19

Cyngor Sir Swydd Buckingham

### AAS o Gynllun Trafnidiaeth Leol Cyngor Sir Swydd Buckingham 2006–2011 (Cyngor Sir Swydd Buckingham/Centre for Sustainability (C4S) yn TRL)

Mae Cynllun Trafnidiaeth Leol (LTP) Cyngor Sir Swydd Buckingham 2006–2011 yn amlinellu strategaeth, gweledigaeth a rhaglen weithredu'r Cyngor ar gyfer pob dull trafniadaeth. Mae'n cynnwys cynigion am 15 cynllun trafniadaeth pwysig, gan gynnwys gweliannau i drafniadaeth gyhoeddus a chysylltiadau ffordd.

Ar ôl cynhyrchu'r adroddiad cwmpasu, comisiynwyd C4S i weithio yn swyddfeydd y Cyngor ochr yn ochr â'r tîm cynllunio trafniadaeth, gan gydysylltu'r gweithgareddau asesu a chynhyrchu'r Adroddiad Amgylcheddol. Cafodd perfformiad amgylcheddol y cynllun ei wella gan eraill yn y Cyngor, gan gynnwys Archeolegwr y Sir a'r timau bioamrywiaeth a thirwedd.

Gyda'r LTP yn cynnig llawer o gynlluniau pwysig, defnyddiwyd y System Wybodaeth Ddaearyddol (GIS), a ddefnyddiwyd yn wreiddiol i ddarparu'r cyd-destun amgylcheddol i'r AAS, i nodi gwrthdaro a synergedd. Defnyddiwyd amrywiaeth o setiau data bioamrywiaeth, tirwedd, treftadaeth a chymdeithasol. Defnyddiwyd y GIS i nodi rhai effeithiau difrifol posibl yn ymwneud ag adnoddau tirwedd a threftadaeth, yn ogystal ag effeithiau cadarnhaol yn ymwneud â gwella mynediad i ardaloedd o amddifadedd.

Mae llawer o nodweddion yr AAS hwn wedi cyfrannu at ddealltwriaeth drylwyr o effeithiau cynaliadwyedd posibl yr LTP, yn enwedig y trafodaethau manwl gydag adrannau eraill a'r asesiad GIS. Cyflwynodd y tîm AAS fesurau gwella a lliniaru yn yr adroddiad amgylcheddol. Mae llawer o'r rhain wedi'u mabwysiadu, felly mae'r broses AAS wedi helpu i wella cynaliadwyedd yr LTP.

**Rob Gardner, C4S**  
rgardner@trl.co.uk

**'Mae amcanion yr AAS yn cael eu cydnabod gan eich Harchwiliad Gweithredu ar gyfer oes yr LTP2 a chânt eu hymgorffori ym Matrics Asesu'r Cynllun, a fydd yn helpu i flaenoriaethu cynlluniau trafniadaeth arfaethedig sy'n cydymffurfio ag amcanion yr AAS. Bydd hyn hefyd yn helpu i nodi a gwella cynlluniau trafniadaeth arfaethedig nad ydynt yn cydymffurfio â'r amcanion hynny.'**

Cyngor Sir Swydd Buckingham



Cyngor Sir Swydd Buckingham





David Levenson (rspb-images.com)

### AAS/SA o Strategaeth Ofodol Ranbarthol (RSS) ddrafft Swydd Efrog a'r Humber (Cynulliad Rhanbarthol Swydd Efrog a'r Humber/Levett-Therivel Consultants)

Mae materion cynaliadwyedd allweddol y mae'r RSS yn ceisio mynd i'r afael â nhw'n cynnwys anghydraddoldebau cymdeithasol, effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol patrymau bywyd a thrafnidiaeth newidiol, ffyniant economaidd isel y rhanbarth o gymharu â rhanbarthau eraill yn Lloegr, newid yn yr hinsawdd, gostyngiad mewn poblogaeth, y galw am ddŵr o gymharu â'r cyflenwad, gwastraff a gynhyrchir, y boblogaeth sy'n heneiddio a newidiadau i'r dirwedd.

Cyflawnwyd y rhan fwyaf o'r gwaith AAS/SA gan Levett-Therivel Consultants a Halcrow/EDAW, gyda chyfraniad sylweddol gan Yorkshire Futures ac adorth a chyngor gwerthfawr gan grŵp llywio.

Roedd yr AAS/SA yn cynnwys tri

chylch asesu ffurfiol o weledigaeth strategol a dau ddrafft o'r RSS. Hefyd, cynhaliwyd sawl cylch asesu ar ffurf pwyntiau bwled anffurfiol, cyflym diwrnod neu ddau er mwyn rhoi gwybod i gynllunwyr am effeithiau polisiâu drafft mewn amser real.

Mae'r adroddiad AAS/SA yn dangos sut yr helpodd i ddylanwadu ar yr RSS:

- Cafodd penderfyniad yr AAS/SA i gymharu tair gweledigaeth RSS amgen ddylanwad ar y penderfyniad i roi mwy o bwyslais ar ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol yn yr RSS.
- Arweiniodd at ddull mwy cyson a rhoddwyd mwy o flaenoriaeth i leihau'r angen i deithio, prosiectau o arwyddocâd rhanbarthol a diogelu lleiniau glas gydol yr RSS.
- Arweiniodd at gymorth cliriach mewn polisiâu ar gyfer ardaloedd ymylol y rhanbarth i arallgyfeirio'r economi mewn ffordd arloesol ar raddfa fechan.
- Dylanwadodd ar adrannau unigol o'r RSS. Er enghraifft, yn Leeds, rhoddwyd mwy o bwyslais ar adfywio ardaloedd adeiledig

cyfredol yn hytrach na gwasgariad ymylol, i ddatblygu syniadau ynglŷn â swyddogaethau cyflenwol ar gyfer setliadau mawr a rhoi mwy o ystyriaeth i sut y gall twf economaidd fod yn fwy cynaliadwy.

- Roedd yn ffactor a arweiniodd at gomisiynu mwy o waith ar y berthynas rhwng tai a llwyddiant economaidd yn y rhanbarth.
- Bydd Bwrdd Datblygu Cynaliadwy'r Rhanbarth yn defnyddio'r AAS/SA i adolygu effaith yr RSS wrth iddi gael ei rhoi ar waith.

Roedd amserlenni cynllunio'n broblem barhaus: roedd y cynllunwyr dan bwysau i gyflwyno'r RSS yn gyflym, ac roedd hyn yn peri problem i'r AAS/SA. Gall hyn fod yn bryder i lawer o RSSau a LDDau, ond gellir rheoli'r broblem trwy gyfathrebu'n effeithiol rhwng y timau cynllunio ac AAS.

Riki Therivel, Levett-Therivel  
Riki@levett-therivel.fsworld.co.uk



Levett-Therivel  
sustainability consultants

Chris Gomersall (rspb-images.com)







Bias Ffrainc gan Mike Lane (rsph-images.com)

### AAS/SA o LDF (gan gynnwys Cynllun Gweithredu Ardal Cymuned Newydd Sherford) gan Gyngor Dosbarth South Hams

Mae Enfusion yn cyflawni'r gwaith ASS/SA ar LDF South Hams, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Ardal (AAP) ar gyfer Cymuned Newydd Sherford. Mae'r prosiect yn dangos sut y gall y broses AAS/SA helpu gyda gwaith cynllunio ac adeiladu cynaliadwy arloesol.

Cymuned defnydd cymysg newydd arfaethedig i'w hadeiladu ar gyrion Plymouth yw Sherford, a bydd ganddi 5,500 o gartrefi erbyn 2026. Yn gynnar iawn, cyflwynodd Cyngor Dosbarth South Hams weledigaeth glir ar gyfer y prosiect ac ar gyfer cyflawni dull delfrydol o ymdrin â chynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn arbennig. Gwelwyd yr AAS/SA fel dull allweddol i sicrhau'r weledigaeth a chafodd yr argymhellion flaenoriaeth uchel gan y

Cyngor. Roedd cyfraniad Sefydliad y Tywysog er yr Amgylchedd Adeiledig at y gwaith o hwyluso digwyddiadau Enquiry by Design hefyd yn helpu rhanddeiliaid ymdrin â chynllunio a dylunio'r gymuned newydd mewn modd cyfannol.

Mae'r AAS/SA wedi cryfhau'r Cynllun Gweithredu Ardal yn sylweddol, yn enwedig mewn perthynas â gosod targedau cynaliadwyedd arfer gorau a sicrhau dull cadarn o ymdrin â materion cynaliadwyedd. Yn arbennig, mabwysiadwyd yr argymhellion AAS/SA canlynol yn yr AAP:

- **targedau meintiol ar gyfer arbed ynni a gostwng CO2 mewn adeiladau**
- **ymrwymiad i darged o 50% o ofynion ynni'r datblygiad yn cael eu darparu trwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle, gan gynnwys hyrwyddo cynnig pŵer gwynt ym Mharc y Gymuned**
- **cynnwys gofynion ar gyfer mesurau arbed dŵr yn y datblygiad**
- **mesurau ailgylchu gwastraff**
- **gofynion polisi ar gyfer dwyseddau datblygu**

- **egwyddorion ar gyfer cynllunio i ddileu trosedd**
- **sicrhau bod strategaeth fioamrywiaeth yn ofynnol ar gyfer y datblygiad.**

Mae mesurau cynaliadwyedd eraill yn cynnwys polisiau sy'n hyrwyddo newid moddol i drafnidiaeth fwy cynaliadwy ac sy'n gofyn am gynllun cryno o ansawdd uchel, gyda chanolfannau cymdogaeth yn diwallu anghenion bob dydd. Bydd cyflwyno graddol yn sicrhau y darperir cyfleoedd manwerthu, cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol a seilwaith i ddiwallu anghenion preswylwyr, i sicrhau patrymau teithio cynaliadwy ac i hyrwyddo datblygiad a hunaniaeth y gymuned. Mae polisiau pellach yn gofyn am 50% o dai fforddiadwy a darpariaeth gynnar o gyfleoedd cyflogaeth a gofynion cynllunio i ymateb i newid yn yr hinsawdd.

Mae'r prif waith cynllunio a dylunio ar gyfer y Gymuned eisoes ar waith, gydag arferion adeiladu a chynllunio cynaliadwy arloesol yn cael eu

mabwysiadu gan ddatblygwyr er mwyn cydymffurfio â'r targedau a nodir yn yr AAP newydd. Ar adeg ysgrifennu, mae'r AAP wedi cyrraedd y cyfnod cyflwyno, a chynhelir yr Archwiliad ym mis Ionawr 2007.

**Barbara Carroll, Enfusion**  
[barbara.carroll@enfusion.co.uk](mailto:barbara.carroll@enfusion.co.uk)



South Hams  
District Council

enfusion





Tyluan wein gan Mark Hamblin (fspb-images.com)

### AAS o Gynigion Uwch-warchodlu'r Fyddin (Ystadau Amddiffyn/Army Infrastructure Organisation/Entec UK)

Penderfynodd Ystadau Amddiffyn ddefnyddio canllawiau Entec i gynnal AAS o gynrig 'Uwch-warchodlu'r Fyddin'. Byddai'r cynrig hwn yn canolbwyntio Byddin Prydain mewn llai o gymunedau mwy ledled y DU.

Er mwyn i'r AAS fod yn effeithiol, roedd angen i'r fethodoleg a ddyfeisiwyd fod yn gadarn ac yn gynhwysfawr. Yn arbennig, byddai angen iddi ymgysylltu'n llawn â'r cwsmeriaid gydol y broses er mwyn ymateb i'r set unigryw o amgylchiadau dan sylw.

Cafwyd sawl her, o ganlyniad i:

- gychwyn yr AAS yn gynnar yn natblygiad cynnig Uwch-warchodlu'r Fyddin, pan oedd yn gynrig cysyniadol a strategol
- y ffaith mai'r AAS oedd yr asesiad cyntaf a gynhaliwyd gan Ystadau Amddiffyn ar ran y Fyddin yn y

### Weinyddiaeth Amddiffyn

- y ffaith bod y cynigion yn cwmpasu'r DU gyfan ac yn cynnwys ymgynghoreion statudol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Daeth yr ymgynghoriad ar adroddiad cwmpasu Cyfnod A i ben ym mis Tachwedd 2006 ac mae'r asesiad o effeithiau wedi cychwyn. Mae'r dull a fabwysiadwyd gan Ystadau Amddiffyn ac Entec yn rhoi pwyslais ar gydweithio, sy'n helpu i sicrhau bod yr AAS yn cael ei integreiddio'n effeithiol trwy'r gwaith o ddatblygu'r cynigion. Bydd y dull hwn hefyd yn datblygu gallu'r cwsmer i reoli asesiadau pellach drostynt eu hunain yn y dyfodol.

Mae'r cynnig wedi elwa ar ymgysylltu cynnar gydag amrywiaeth eang o ymgynghoreion milwrol ac allanol, sydd wedi darparu mewnbwn gwerthfawr. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gweddill cyfnodau'r AAS yn datblygu gyda chyfraniad y grwpiau allweddol hyn.

Phill Minas, Entec UK  
phillip.minas@entecuk.co.uk

**'Mae cynnal yr AAS yn y cyfnod cynnar hwn wedi caniatáu i ni ymgorffori ystyriaethau datblygu cynaliadwy yng nghynnig yr Uwch-warchodlu o'r cychwyn, gan ein helpu i sicrhau bod datblygiadau dilynol yn darparu targedau datblygu cynaliadwy'r Weinyddiaeth Amddiffyn.**

Dr Sue Jordan, Ystadau Amddiffyn



**Entec**



Defence Estates





# Rhoi lle canalog i AAS mewn sefydliadau

## Creu dulliau i gefnogi defnydd eang

27



Erin Jones / rpsb-images.com

### Pecyn cymorth AAS: Cyngor Thurrock a Scott Wilson

Roedd Cyngor Thurrock am roi technegau AAS ar waith mewn perthynas â chynlluniau nad oeddent yn gofyn am AAS. Creodd Scott Wilson becyn cymorth AAS ar gyfer Cyngor Thurrock i'w helpu i hwyluso'r dull hwn.

Cynlluniwyd y pecyn cymorth i fod yn hawdd i'w ddeall. Mae wedi'i rannu'n dair adran:

**1 gofynion y Gyfarwydddeb AAS a darpariaethau cyfreithiol mewn perthynas â chynnwys ac ymgynghori**  
**2 'papurau pwnc' ar gyfer pob pwnc sydd wedi'i gynnwys yn y Gyfarwydddeb AAS (Atodiad I (f)).**

Roedd y papurau hyn yn cynnwys cyfnod cwmpasu pob un o'r pynciau ar gyfer Thurrock, gan roi cefndir cynhwysfawr i'r llinell sylfaen a chyddestun polisi, a hefyd Amcanion AAS yn seiliedig ar y rheini a fabwysiadwyd ar gyfer yr SA o LDF Thurrock

**3 cyfarwyddiadau ar sut i gynnal asesiadau o'r cynlluniau, gyda thempledi matrices asesu a chyngor wedi'u darparu.**

Mae'r pecyn cymorth wedi'i groesawu ledled y Cyngor ac mae'n cael ei gymeradwyo i'w ddefnyddio gan sawl sector corfforaethol. Bydd yn darparu gwerth ledled gweithrediadau'r Cyngor ac yn codi ymwybyddiaeth o'r Gyfarwydddeb AAS a'r agenda cynaliadwyedd, gan ei chynnwys mewn gweithgareddau bob dydd a gwaith cynllunio. Bydd staff mewnol sy'n cynnal AASau yn cynyddu gallu a gwybodaeth sefydliadol mewn perthynas â chynaliadwyedd. Bydd dosbarthu gwybodaeth dechnegol i staff y Cyngor yn sicrhau gwybodaeth gynhwysfawr ac yn galluogi i ddata gael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Yn olaf, bydd mabwysiadu'r pecyn cymorth i'w ddefnyddio ar gyfer cynlluniau a rhaglenni anstatudol yn sicrhau bod Cyngor Thurrock yn darparu enghraifft o arfer gorau mewn perthynas â datblygu cynaliadwy.

**Alex White, Scott Wilson**  
[Alex.white@scottwilson.com](mailto:Alex.white@scottwilson.com)



Cyngor Thurrock



# Rheoli AAS

## Rhannu arferion gorau trwy hyfforddiant a rhwydweithio

29

Genevieve Leaper (rspb-images.com)

### Cyngor Swydd Aberdeen, Cyngor Dinas Aberdeen a Scottish Enterprise Grampian

Mae Cyngor Swydd Aberdeen, Cyngor Dinas Aberdeen a Scottish Enterprise Grampian wedi datblygu strategaeth bartneriaeth i rannu'r arbenigedd, y gost a'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn cynnal AAS. Maen nhw wedi sefydlu prosiect sydd â'r nod o ddatblygu dull arloesol o ymdrin â chyllido, rhannu arfer gorau, hyrwyddo cysondeb a rheoli ansawdd yn y broses AAS. Mae hefyd yn ceisio datblygu arbenigedd mewnol, datblygu diwylliant o integreiddio AAS fel rhan o'r prosesau llunio cynlluniau, rheoli'r prosesau AAS yn effeithiol, hyrwyddo arferion da a gwneud arbedion cost hirdymor.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, cyflogodd pob un o'r tri chorff gydgyssylltydd i:

- **hyrwyddo AAS**
- **cynghori, hyfforddi a chefnogi swyddogion**

- **datblygu canllawiau ac adnoddau sy'n hawdd eu defnyddio**
- **nodi camau strategol sy'n gofyn am AAS a sicrhau bod yr angen am AAS yn cael ei ddiwallu.**

Roedd blwyddyn gyntaf y prosiect yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth, hyfforddiant sylfaenol a datblygu adnoddau. Mae'r ail flwyddyn yn canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth broffesiynol mewn AAS trwy hyfforddiant a chymorth arbenigol. Hyd yma, mae dros 100 o swyddogion wedi derbyn hyfforddiant, mae wyth dogfen ganllaw yn cael eu defnyddio, mae 76 cynllun/rhaglen/strategaeth gyffredinol wedi'u nodi ar gyfer AAS ac mae'r swyddog AAS yn helpu tua 10 corff arall i gynnal AAS. Mae uwch-reolwyr y tri awdurdod wedi bod yn gefnogol iawn o'r gwaith a gyflawnir. Mae'r partneriaid yn monitro darpariaeth y prosiect trwy grŵp llywio AAS. Bydd gr\_p defnyddwyr sy'n cynnwys swyddogion sy'n cyfrannu at AAS ac sy'n cael ei gadeirio gan y swyddog AAS yn monitro ansawdd.

Mae'r prosiect yn amlygu'r hyn y gall partneriaethau ei gyflawni mewn cyfnod byr. Mae buddsoddiad bach yn y prosiect wedi arwain at enillion mawr o ran ansawdd, gallu, dealltwriaeth a sut mae pethau'n ategu ei gilydd. Mae cysylltiadau agosach yn parhau i gael eu datblygu rhwng partneriaid. Yn olaf, disgwylir y bydd datblygu arbenigedd mewnol yn arbed tua £1.5 miliwn i'r partneriaid mewn ffioedd ymgynghori dros dair blynedd.

**Joe Somevi, Cyngor Dinas Aberdeen/Cyngor Swydd Aberdeen/Scottish Enterprise Grampian**  
[Joseph.somevi@aberdeenshire.gov.uk](mailto:Joseph.somevi@aberdeenshire.gov.uk)



### Grŵp AAS Gorllewin yr Alban

Mae ymarferwyr a chynllunwyr AAS sy'n gweithio mewn un rhanbarth yn yr Alban wedi dod o hyd i ffordd effeithiol o gefnogi ei gilydd a rhannu profiadau. Maen nhw wedi sefydlu grŵp AAS Gorllewin yr Alban. Mae'r grŵp wedi bod ar waith ers dros flwyddyn ac mae'n cynnwys tua 15 aelod rheolaidd o awdurdodau lleol y rhanbarth, sy'n cyfarfod yn anffurfiol am hanner diwrnod bob tri mis. Ar y cychwyn, roedd y grŵp yn cynnwys ymarferwyr a chynllunwyr AAS ond, erbyn hyn, mae eraill sy'n cyfrannu at AAS, fel swyddogion bioamrywiaeth, yn mynychu hefyd.

Mae pob cyfarfod yn cynnwys trafodaeth a dadl (er enghraifft, ar ddulliau posibl o gynnal AAS) ac, yn aml, gwahoddir siaradwyr allanol. Mae presenoldeb cynrychiolwyr o'r Awdurdodau Ymgynghori ac SEA Gateway (corff gweinyddol canolog Gweithrediaeth yr Alban ar gyfer AAS) yn darparu cysylltiad defnyddiol rhwng y grwpiau hyn a'r awdurdodau

cyfrifol. Cedwir mewn cysylltiad dros yr e-bost rhwng cyfarfodydd. O ystyried efallai mai dim ond un swyddog AAS fydd ym mhob awdurdod, mae'r cyfle i gyfarfod ag eraill wedi'i groesawu gan yr holl swyddogion. Mae rhannu syniadau a phrofiadau trwy grŵp yn helpu i godi disgwyliadau o'r hyn y gall AAS ei gyflawni, mae'n rhoi cyfle i bobl sy'n dechrau ar y gwaith ddysgu gan eraill ac mae'n helpu pobl fwy profiadol i rannu arfer gorau. Mae'r grŵp yn bwriadu parhau i gyfarfod, yn llai aml pan fydd arferion AAS wedi'u hymgorffori yng ngwaith awdurdodau lleol a phan fydd pobl yn gwybod sut i gynnal AAS yn effeithiol.

Gallai ymarferwyr a chynllunwyr AAS ledled y DU ddefnyddio model grŵp AAS Gorllewin yr Alban ar gyfer eu rhanbarth eu hunain, gan gefnogi ei gilydd wrth fynd i'r afael ag AAS a helpu i wella ansawdd arferion y DU.

**Antony McGuinness (Cadeirydd)**  
[antony.mcguinness@east-ayrshire.gov.uk](mailto:antony.mcguinness@east-ayrshire.gov.uk)

# Cyngor yr RSPB ar gynnal ASS o safon



Genetiveve Leaper (rspb-images.com)

## Paratoi

- Yn unol ag amcanion y Gyfarwydddeb AAS, dylech sicrhau bod y broses asesu'n rhoi lefel uchel o ddiogelwch i'r amgylchedd ac yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Dylai AAS arwain at gynllun mwy amgylcheddol gynaliadwy. Dylech adolygu cynnydd tuag at y nod hwn ym mhob cyfnod.
- Dylech ddechrau AAS yn y cyfnod cynllunio cynharaf i sicrhau bod materion yn cael eu hystyried o'r cychwyn.
- Dewiswch dîm sy'n cynnwys gwybodaeth am dechnegau AAS, y sector cynllunio a'r ardal ddaearyddol. Er y bydd ymgynghorwyr allanol o fudd mewn rhai achosion, mae'n bwysig cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i adeiladu gallu mewnol ar gyfer AASau yn y dyfodol. Gall dull ar y cyd fod yn fuddiol wrth ddatblygu gallu AAS.

## Cynnal yr asesiad

- Trefnwch gysylltiad rheolaidd rhwng y timau AAS a llunio cynlluniau i'w

hannog i rannu gwybodaeth a syniadau'n anffurfiol.

- Dylech ymgynghori â phartïon â buddiant yn ystod cyfnod cwmpasu'r AAS. Mae hyn yn helpu i greu consensws o broblemau amgylcheddol perthnasol. Cyhoeddwch adroddiad cwmpasu.
- Dylech gynnwys gweithwyr proffesiynol ag arbenigedd perthnasol i helpu i sicrhau bod materion yn cael eu hasesu'n briodol – er enghraifft, dylech siarad ag ecolegwyr er mwyn deall y materion bioamrywiaeth. Ystyriwch pa asesiadau eraill sydd eu hangen yn y cyfnod hwn neu'n ddiweddarach (er enghraifft, asesiad priodol o dan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd).
- Gwerthuswch y dewisiadau amgen arfaethedig<sup>1</sup>. Os na fydd y llunwyr cynlluniau'n cyflwyno unrhyw ddeisiadau amgen, dylid datblygu a gwerthuso sawl dewis fel rhan o AAS. Dylai'r rhain gynnwys y dewisiadau sydd o'r budd amgylcheddol mwyaf. Gwnewch yn siŵr bod lefel y manylder a'r

methodolegau asesu'n briodol i natur a graddfa'r cynllun.

- Defnyddiwch y dull 'Cynllunio Cadarnhaol' i ddiogelu bioamrywiaeth ac asedau amgylcheddol eraill. Mae hyn yn golygu cynnig dulliau i leihau effeithiau niweidiol o'r cychwyn fel na ellir lleihau effeithiau lliniarol ymhellach ac, yn olaf, gwneud iawn am weddill yr effeithiau.
- Defnyddiwch ganlyniadau AAS haen uwch, os ydych chi'n gael, i lywio'r asesiad a gwneud gysylltiadau clir gydag AAS haen is a/neu EIA ar gyfer prosiectau canlynol, fel sy'n briodol.
- Os defnyddir dull 'arfarniad cynaliadwyedd', ceisiwch sicrhau datblygiad cynaliadwy trwy integreiddio amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd a sicrhau canlyniad lle mae pawb ar eu hennill.
- Os nodir gwrthdaro rhwng amcanion cynllunio ac amgylcheddol, nodwch y rhesymau ac argymhellwch sut y dylid osgoi neu ddatrys y gwrthdaro hwn.

## Defnyddio'r canlyniadau i lywio'r cynllun

- Dylai'r adroddiad amgylcheddol gyfleu'r wybodaeth allweddol yn syml ac yn gryno. Nid yr adroddiadau hiraf yw'r gorau bob amser! Gellir cyhoeddi manylion ategol mewn atodiad ar wahân os bydd angen.
- Cyflwynwch argymhellion penodol ar gyfer gwella'r cynllun a nodwch sut y gellir eu rhoi ar waith.
- Ysgrifennwch adroddiad amgylcheddol mewn arddull agored a diduedd. Cynhyrchwch grynodedd annhechnegol ar wahân sy'n hawdd ei ddeall.
- Sicrhewch fod yr adroddiad a'r broses AAS wedi'u cynnal i safon dda. Defnyddiwch restr wirio Canllaw Ymarferol yr AAS<sup>2</sup> ac, os yn bosibl, trefnwch wiriad sicrhau ansawdd annibynnol. Gallai'r gwiriad hwn gael ei gyflawni gan rywun â gwybodaeth am AAS mewn sefydliad cysylltiedig – er enghraifft, ar gyfer cynlluniau gofodol, trefnwch i gyfnewid adroddiadau AAS gyda rhywun mewn awdurdod lleol

cyfagos. Fel arall, mae'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol yn cynnig gwasanaeth adolygu.

- Wrth gynhyrchu'r datganiad ôl-fabwysiadu sy'n cyd-fynd â'r cynllun, dylech ddogfennu a chyfiawnhau'n llawn sut yr ystyriwyd materion amgylcheddol a barn pobl yr ymgynghorwyd â nhw wrth gynhyrchu'r cynllun terfynol. Dylech gydnabod dylanwadau gwleidyddol ar y cynllun a fabwysiadir.

## Cyfeiriadau

Mae'r RSPB, English Nature, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cyhoeddi *Strategic Environmental Assessment and Biodiversity: Guidance for Practitioners* (Gorffennaf 2004). Mae hwn ar gael yn [www.rspb.org.uk/policy/planningpolicy](http://www.rspb.org.uk/policy/planningpolicy)

## Cydnabyddiaeth

Hoffai'r RSPB ddiolch i'r holl unigolion a sefydliadau a gefnogodd y prosiect hwn trwy ysgrifennu astudiaethau achos neu wneud enwebiadau.

<sup>1</sup> Gweler *Dos and don'ts guide to generating and developing alternatives* gan CEP, Land Use Consultants, C4S, Levett-Therivel, Scott Wilson a Trewick Environmental Consultants. Ar gael yn [www.levett-therivel.co.uk](http://www.levett-therivel.co.uk) o dan SEA.

<sup>2</sup> Mae'r rhestr wirio ar gael gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (DCLG), Gweithrediaeth yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon (2005) *A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive*. DCLG, Llundain. Ar gael yn [www.communities.gov.uk](http://www.communities.gov.uk)